# CYNLLUN MARCIO TGAU

**HAF 2016**

**ASTUDIO'R CYFRYNGAU**
**4391/01**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2016.  Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad.  Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth.  Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**TGAU ASTUDIO'R CYFRYNGAU - UNED 1**

**CYNLLUN MARCIO HAF 2016**

**ADRAN A: Meddwl am y Cyfryngau – Ymchwilio i *Raghysbysebion Ffilmiau*** **[40]**

Mae'r deunydd adnoddau yn cynnwys rhaghysbyseb ar gyfer ffilm y BBC *X+Y* (2015, cyf. Morgan Matthews).
Ar ôl gwylio'r rhaghysbyseb, defnyddiwch eich nodiadau i ateb y cwestiynau canlynol.

**1.** Sut mae gwaith camera yn cael ei ddefnyddio yn y rhaghysbyseb hon? Cyfeiriwch at enghreifftiau [10]

Galla atebion gynnwys cyfeirio at y canlynol:

- Rhediad stori/ naratif: saethiadau o fformiwla fathemateg/ byrddau du ayb., saethiadau o gymeriadau, yn sefydlu perthnasoedd/ cynrychioliadau
- Lleoliad: saethiadau o ysgol, ystafelloedd dosbarth, coridorau, dinas dramor ayb.
- *Genre*: ffilm ramant arddegwyr, drama, defodau newid byd
- Amrywiaeth eang o saethiadau, onglau a symud sy'n nodweddiadol o raghybysebion ffilmiau

| | |
|---|---|
| **Lefel 1 (1-3)** | Disgrifiad sylfaenol gyda rhywfaint o nodi saethiadau camera gwahanol. Marc uwch am ddisgrifiad mwy manwl o sut mae saethiadau'n cael eu defnyddio. |
| **Lefel 2 (4-5)** | Esboniadau o'r gwaith camera yn dod i'r golwg gyda chyfeirio tebygol at amrywiaeth ehangach o saethiadau a disgrifiadau o gymeriadau/ lleoliadau/ rhediad stori. Marc uwch am esboniadau mwy manwl o sut mae'r gwaith camera'n cyfleu (e.e. naratif neu gymeriad) i'r gynulleidfa. |
| **Lefel 3 (6-7)** | Defnyddir iaith-y-cyfryngau berthnasol i ddangos sut mae gwaith camera'n cael ei ddefnyddio i apelio at gynulleidfa. Mae'n debygol y bydd agweddau ar waith camera fel onglau a symudiadau yn cael eu hesbonio. Am farc uwch bydd cyfeirio at amrywiaeth o waith camera, gydag esbonio cywir o sut mae hyn yn cael ei ddefnyddio. |
| **Lefel 4 (8-10)** | Esboniad rhagorol o sut mae amrywiaeth eang o waith camera'n cael ei defnyddio e.e. i gyfleu naratif/ cymeriadau / *genre*. Defnydd hyderus o iaith y cyfryngau i drafod codau a chonfensiynau. Am farciau uwch/llawn bydd esbonio soffistigedig gyda dealltwriaeth o sut mae arddull y sinematograffeg yn nodweddiadol o raghysbysebion ffilmiau. |


© WJEC CBAC Cyf.

**2.** (a) Nodwch **ddau** fath gwahanol o olygu sy'n cael eu defnyddio yn y rhaghysbyseb hon. [2]

**1 marc am bob techneg golygu a nodir yn gywir.**

- Gweledol
  - Toriadau syth
  - Pylu i ddu
  - Toddiadau
  - Golygfeydd ôl-fflachiau

- Clywedol
  - Deialog ac adrodd trosleisio
  - Cerddoriaeth
  - Effeithiau sain

- Teitlau
  - Defnyddio teipograffeg
  - Teitlau'n pylu i fyny
  - Wedi'u canoli

(b) Esboniwch pam mae'r mathau hyn o olygu yn cael eu defnyddio. [8]

Gall atebion gynnwys cyfeirio at y canlynol:

- Defnyddio delweddau, sain a theitlau i wneud ystyr
- Detholiad o adegau allweddol o'r ffilm i ddenu cynulleidfa
- Llunio naratif dilyniant y rhaghysbyseb
- Codau a chonfensiynau *genre* (arddegau/ drama/ rhamant)
- Hoelio pwynt gwerthu unigryw'r ffilm drwy gymeriadau, rhediadau stori a dyfeisiau naratif eraill

**Os nodir dim ond un techneg golygu rhowch uchafswm o 4 marc.**

| | |
|---|---|
| **Lefel 1 (1-2)** | Disgrifiad sylfaenol o fathau o olygu. Marc uwch am ddisgrifiadau syml o sut mae'r rhain yn cael eu defnyddio. |
| **Lefel 2 (3-4)** | Esboniad yn dod i'r golwg o sut y defnyddir golygu i lunio'r rhaghysbyseb a denu cynulleidfa. Marc uwch am esboniad dilys. |
| **Lefel 3 (5-6)** | Esboniad mwy manwl o pam mae technegau golygu'n cael eu defnyddio. Mae iaith y cyfryngau yn dod i'r golwg. Ni ddylid rhoi mwy na 3 marc am unrhyw ymateb sy'n seiliedig ar y deunydd adnoddau neu ddim yn cyfeirio at unrhyw rhaghysbyseb |
| **Lefel 4 (7-8)** | Esboniad rhagorol o pam mae tehcnegau golygu wedi cael eu defnyddio, gyda defnydd hyderus o iaith dechnegol. Marc uwch am esboniad soffistigedig o sut mae'r golygu'n llunio'r rhaghysbyseb i apelio at gynulleidfoedd. |



© WJEC CBAC Cyf.

**3.** Esboniwch sut mae rhaghysbysebion yn dangos *genre* ffilm. Cyfeiriwch at **o leiaf un** rhaghysbyseb rydych chi wedi ei hastudio (***nid* y Deunydd Adnoddau).** [10]

Gall atebion gynnwys cyfeirio at y canlynol:

- Codau gweledol a chlywedol
- Codau technegol
- Codau symbolaidd
- Naratif
- Cynrychioliad
- *Repertoire* o elfennau/ is-*genres*/ croesrywedd i apelio at gynulleidfa

| | |
|---|---|
| **Lefel 1 (1-3)** | Disgrifiad sylfaenol o sut mae'r math o ffilm yn cael ei ddangos yn y rhaghysbyseb. Efallai bydd ymgeiswyr ar y lefel hon ddim ond yn disgrifio'r rhediad stori. Marciau uwch am ddisgrifiad mwy manwl gan gyfeirio at raghysbyseb ffilm a astudiwyd. Rhaid peidio â rhoi mwy na 3 marc am unrhyw ateb sy'n seiliedig ar y deunydd adnoddau. |
| **Lefel 2 (4-5)** | Disgrifiadau manwl o elfennau *genre* mewn rhaghysbyseb ffilm a astudiwyd. Cyfeirio tebygol at rediad stori a chymeriadau e.e. gwisg, iaith y corff, ystum neu weithgareddau a ddefnyddir yn y rhaghysbyseb. Marc uwch am gysylltu disgrifiad o godau gweledol/ clywedol â *genre*'r rhaghysbyseb ffilm a astudiwyd. |
| **Lefel 3 (6-7)** | Esboniadau mwy manwl o sut y dangosir *genre* yn y rhaghysbyseb ffilm a astudiwyd. Defnyddir iaith-y-cyfryngau berthnasol. Marc uwch am gyfeirio at ddefnyddio codau technegol, symbolaidd, naratif ayb. i lunio apêl *genre* ar gyfer cynulleidfa. |
| **Lefel 4 (8-10)** | Esboniad rhagorol o sut mae'r rhaghysbyseb a astudiwyd yn llunio codau a chonfensiynau *genre* i hyrwyddo'r ffilm i gynulleidfa. Defnydd hyderus o iaith y cyfryngau a chyfeirio posibl at naratif a chynrychioliad. Am farciau uwch/llawn, bydd esbonio soffistigedig gyda dealltwriaeth o gymhlethdod *genre* e.e. sut mae rhaghysbysebion ffilmiau yn defnyddio *repertoire* o elfennau, is-*genres* neu groesrywedd i hyrwyddo'r ffilm. |



© WJEC CBAC Cyf.

**4.** Esboniwch pam mae rhaghysbysebion ffilmiau yn cael eu dangos ar y rhyngrwyd. [10]

Gall atebion gynnwys:

- Rhoi cyfleoedd i ddosbarthwyr ffilmiau hyrwyddo'r ffilm i gynulleidfaoedd
- Marchnata/ hysbysebu/ cyhoeddusrwydd:
    - Gwefan swydodgol y ffilm a gwefannau cyfryngau cymdeithasol
    - Marchnata firaol
    - Pwsigrwydd *YouTube* ar gyfer hyrwyddo rhaghysbysebion ffilmiau a deunyddiau cyhoeddusrwydd eraill
    - Gwerthu nwyddau
    - Targedu cloer o ffilmiau i gynulleidfaoedd drwy wefannau'r rhyngrwyd, hysbysebu cyd-destunol, a synergeddau sefydliadol
    - Rhaghysbysebion yn cael eu dangos ar wefannau newyddion ac yn cael eu cynnwys mewn adolygiadau ar-lein
    - Gwefannau ffilmiau answyddogol a gwefannau cefnogwyr
- Rhoi gwybodaeth i gynulleidfaoedd am ffilmiau newydd
- Rhoi cyfleoedd i gefnogwyr ddarganfod gwybodaeth ychwanegol a rhyngweithio â ffilmiau drwy'r wefan / cyfryngau cymdeithasol ayb.
- Gall cefnogwyr ffilmiau ddefnyddio'r rhyngrwyd yn rhyngweithiol (e.e. blogiau/ cyfryngau cymdeithasol) a hyrwyddo'r ffilm ymhellach

| | |
|---|---|
| **Lefel 1 (1-3)** | Esboniad minimol o pam mae rhaghysbysebion ffilmiau yn cael eu dangos ar y rhyngrwyd. Am farciau uwch, esboniad sylfaenol. |
| **Lefel 2 (4-5)** | Esboniad o pam mae rhaghysbysebion ffilmiau yn cael eu dangos ar y rhyngrwyd yn dod i'r golwg. Marc uwch am fwy o fanylder a/neu esboniad dilys o sut y defnyddir y rhyngrwyd i hysbysebu ffilmiau. |
| **Lefel 3 (6-7)** | Esboniad cadarn o pam mae rhaghysbysebion ffilmiau yn cael eu dangos ar y rhyngrwyd. Am farc uwch, esboniad mwy manwl o bwysigrwydd dangos rhaghysbysebion ar y rhyngrwyd i ddosbarthwyr ffilmiau a/ neu gynulleidfaoedd. |
| **Lefel 4 (8-10)** | Esboniad rhagorol o pam mae rhaghysbysebion ffilmiau yn cael eu dangos ar y rhyngrwyd. Teimlad hyderus o faterion sefydliadol. Cyfeirio posibl at y defnyddiau a'r boddhad sy'n cael eu darparu gan y rhyngrwyd Marciau uwch/llawn am esboniadau mwy soffistigedig. |



© WJEC CBAC Cyf.

## ADRAN B

**Meddwl am y Cyfryngau – *Cynllunio Posteri Ffilmiau*** **[40]**

**5.** Cynlluniwch **boster** ar gyfer **ffilm newydd sydd â thystysgrif 12A**.
Cwblhewch y tasgau canlynol:

**TASG 1** (a) Dewiswch deitl ar gyfer y ffilm newydd. [1]

(b) Esboniwch yn fyr pam rydych chi wedi dewis y teitl hwn. [3]

| | |
|---|---|
| **0 marc** | Ni roddir enw ffilm newydd neu defnyddir teitl sy'n bodoli'n barod. |
| **1 marc** | Rhoddir enw priodol. |
| **1 marc ychwanegol** | Esboniad sylfaenol o'r enw a ddewiswyd. |
| **2 farc ychwanegol** | Esboniad mwy manwl o'r enw a ddewiswyd. |
| **3 marc ychwanegol** | Esboniad da. Esboniad manwl o'r enw a ddewiswyd. |

**TASG 2** (a) Nodwch **ddau** le lle bydd eich poster ffilm yn cael ei ddangos. [2]

**1 marc am bob lle priodol a nodwyd.**

(b) Esboniwch yn fyr pam bydd eich poster ffilm yn cael ei ddangos yn y lleoedd hyn. [4]

Os mai dim ond esboniad am un lle sy'n cael ei roi, rhowch uchafswm o 2 farc.

| | |
|---|---|
| **1 marc** | Esboniad sylfaenol o'r lleoedd a ddewiswyd. |
| **2 farc** | Esboniad mwy manwl o'r lleoedd a ddewiswyd. |
| **3 marc** | Esboniad hyderus yn dangos dealltwriaeth o sut bydd posteri'r ffilm yn apelio at gynulleidfaoedd yn y lleoedd a ddewiswyd. |
| **4 marc** | Esboniad rhagorol o sut bydd lleoliadau posteri'r ffilm yn cael eu defnyddio i ddenu cynulleidfaoedd. Cyfeirio posibl at bwynt gwerthu unigryw'r ffilm, ei *genre* cynulleidfa darged ayb. |



© WJEC CBAC Cyf.

**TASG 3** Cynlluniwch y dyluniad ar gyfer eich poster ffilm. [10]

Gall y cynllun gynnwys:

- Teitl y ffilm
- Llinell glo
- Delweddau/ graffigwaith sy'n briodol i'r *genre*
- Testun fel bloc bilio, enw'r cyfarwyddwr a'r sêr, dyddiad rhyddhau, sylwadau adolygwyr, manylion technegol (3D, *IMAX* ayb.)
- Logo'r sefydliad/ tystysgrif oed
- Cyfansoddiad a gosodiad priodol
- Sylw at faint/ cymhareb agweddau ayb.

| | |
|---|---|
| **Lefel 1 (1-3) 1-2 farc** | Gallu minimol i ddylunio poster, nifer cyfyngedig o eitemau wedi'u cynnwys, wedi'i gyflwyno'n wael. |
| **3 marc** | Gallu sylfaenol i ddylunio poster, gyda rhywfaint o deimlad o osodiad a chyfansoddiad. Amrywiaeth gyfyngedig o gonfensiynau. |
| **Lefel 2 (4-5) 4 marc** | Gallu syml i ddylunio poster, rhai confensiynau yn amlwg. |
| **5 marc** | Rhywfaint o allu i ddylunio poster gydag amrywiaeth o gonfensiynau yn amlwg. |
| **Lefel 3 (6-7) 6 marc** | Gallu cadarn i ddylunio a chyflwyno poster, gyda theimlad o *genre* yn amlwg yn y delweddau a'r testun. |
| **7 marc** | Gallu hyderus i ddylunio a chyflwyno poster manwl. Defnyddir amrywiaeth eang o gonfensiynau priodol i gyfleu *genre* a naratif. |
| **Lefel 4 (8-10) 8 marc** | Gallu rhagorol i ddylunio poster gyda theimlad cryf o naratif a *genre*. Bydd y dyluniad yn greadigol ac yn llawn dychymyg gan hoelio teimlad o bwynt gwerthu unigryw'r ffilm. |
| **9-10 marc** | Gallu soffistigedig i ddylunio poster gyda defnydd creadigol iawn o ddyluniad a chyfansoddiad i lunio naratif/ *genre*/ cynrychioliad. Teimlad clir o hyrwyddo a brandio. |



© WJEC CBAC Cyf.

**TASG 4** Esboniwch sut bydd eich poster ffilm yn denu cynulleidfa ifancach at y ffilm. [10]

Gall atebion gyfeirio at y canlynol:

- Cynulleidfa darged
- Ceisio denu cynulleidfaoedd drwy saethiadau camera, iaith, codau gweledol, codau symbolaidd ayb.
- Creu hunaniaeth brand ar gyfer y cynnyrch
- Cynrychioliadau
- Naratifau
- Confensiynau'r *genre*
- Sêr

| | |
|---|---|
| **Lefel 1 (1-3)** | Esboniad minimol o sut bydd y poster yn denu cynulleidfa ifancach. Am farciau uwch, esboniad sylfaenol . |
| **Lefel 2 (4-5)** | Esboniad mwy manwl o sut bydd y poster yn denu cynulleidfa ifancach gan gyfeirio at gymeriadau, lleoliadau, y rhediad stori, y teitl a'r iaith a ddefnyddiwyd . |
| **Lefel 3 (6-7)** | Esboniadau manwl o sut bydd y poster yn apelio at gynulleidfa ifancach drwy amrywiaeth o gonfensiynau fel saethiadau camera, iaith, codau gweledol a naratif. Defnydd o iaith y cyfryngau yn dod i'r golwg. Marc uwch am esboniadau mwy hyderus o sut bydd y poster yn apelio at y gynulleidfa ac yn hyrwyddo'r ffilm. |
| **Lefel 4 (8-10)** | Esboniad rhagorol o sut bydd y poster yn denu cynulleidfa ifancach drwy amrywiaeth eang o apeliadau fel codau technegol a symbolaidd, naratif a chynrychioliad. Am farciau uwch, bydd esboniadau'n soffistigedig, gan ddefnyddio iaith y cyfryngau i esbonio sut bydd y confensiynau a ddefnyddiwyd yn creu pwynt gwerthu unigryw ar gyfer y ffilm, gyda hunaniaeth ac apêl glir i gynulleidfa ifancach. |



© WJEC CBAC Cyf.

**TASG 5** Pa mor bwysig yw posteri ffilm i hyrwyddo ffilm? [10]

Gall atebion gyfeirio at y canlynol:

- Confensiynau'r *genre*
- Codau technegol, gweledol a symbolaidd
- Sêr
- Naratif
- Rhyngdestuniaeth
- Cynrychioliad e.e. rhywedd, ethnigrwydd neu hunaniaeth genedlaethol/ ranbarthol
- Hunaniaeth brand – posteri fel rhan o ymgyrch hyrwyddo
- Pwynt gwerthu unigryw
- Apêl i gynulleidfaoedd
- Defnyddiau a boddhad
- Gwahanol fathau o bosteri ffilmiau, eu lleoliad a'u maint
- Posteri o'u cymharu â mathau eraill o farchnata e.e. marchnata ar-lein
- Cystadlu â ffilmiau eraill

| | |
|---|---|
| **Lefel 1 (1-3)** | Disgrifiad sylfaenol o bosteri ffilmiau, rhai manylion sylfaenol am elfennau posteri a astudiwyd a chyfeirio at sut mae'r rhain yn hyrwyddo'r ffilmiau am farc uwch. |
| **Lefel 2 (4-5)** | Esboniadau syml o pam mae posteri ffilmiau yn bwysig. Cyfeirio tebygol at rediadau stori, cymeriadau, apeliadau'r ffilm yn y poster. |
| **Lefel 3 (6-7)** | Esboniadau mwy manwl o sut mae posteri ffilmiau yn hyrwyddo ffilmiau gyda chyfeirio tebygol at gonfensiynau *genre*/ naratifau/ cynulleidfa darged ac apeliadau. Bydd iaith y cyfryngau yn dod i'r golwg.<br>Am farc uwch, esboniad da gyda defnydd hyderus o iaith y cyfryngau wrth drafod pwysigrwydd posteri yn y gwaith o hyrwyddo ffilm. |
| **Lefel 4 (8-10)** | Esboniadau rhagorol o sut mae posteri ffilmiau yn hyrwyddo ffilmiau a sut maen nhw'n rhan o ymgyrch farchnata ehangach i greu pwynt gwerthu unigryw ar gyfer y ffilm drwy ei helfennau testunol a'i chynrychioliadau.<br>Am farciau uwch esboniadau soffistigedig o sut mae posteri ffilmiau yn hyrwyddo'r ffilm gan gyfeirio at amrywiaeth eang o dechnegau hyrwyddo. Efallai bydd cyfeirio at ryngdestuniaeth â thestunau eraill a sut mae'r cynhyrchwyr yn ceisio creu delwedd brand a phwynt gwerthu unigryw fel rhan o ymgyrch marchnata ehangach. |



© WJEC CBAC Cyf.